PRIFYSGOL CYMRU

DATGANIAD URDDAS YN Y GWAITH

Mae Prifysgol Cymru'n ymrwymo i bolisi o gydraddoldeb cyfle, a'i bwriad yw darparu amgylchedd gweithio a dysgu sy'n rhydd o gamwahaniaethu annheg.

Mae'r Brifysgol yn dymuno sefydlu amgylchedd lle caiff staff a myfyrwyr eu trin ag urddas a pharch, boed wrth weithio neu wrth astudio, gyda phob unigolyn yn cydnabod ei gyfrifoldeb i ddatblygu a chynnal amgylchedd lle mae pob aelod o staff, myfyriwr neu ymwelydd yn cael ei werthfawrogi a'i barchu.

Bydd y Brifysgol yn gwneud ymdrech i gymryd camau priodol i sicrhau na fydd unrhyw aelod o staff, myfyriwr neu ymwelydd yn wynebu camwahaniaethu ar sail rhyw, oed, anabledd, cenedl, hil, crefydd neu gred, tueddfryd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i gynllunio i gynnal diwylliant Urddas yn y Gwaith Prifysgol Cymru.